

Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru

Mai 2024

1. Cefndir

- 1.** Mae Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.¹
- 2.** Mae Deddf 2013 yn rhoi llawer o gyfrifoldebau i'r Senedd, gan gynnwys penodi pum Aelod Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys y Cadeirydd, a gwneud trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol.
- 3.** Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru. O dan Reolau Sefydlog 18.10(iv), 18.10(v), 18.10(vii) a 18.10(viii)², mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau'r Senedd yn ymwneud â phenodi Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru (ac eithrio'r Cadeirydd), a phenderfynu ar delerau penodi'r Aelodau Anweithredol (gan gynnwys taliadau cydnabyddiaeth).

¹ [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#)

² [Rheolau Sefydlog y Senedd, tudalennau 76-77](#)

2. Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru

Rôl y Pwyllgor Cyllid

4. Mae'r gwaith o benodi Aelodau Anweithredol wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 18.10(v)³. Fodd bynnag, y Senedd sy'n gyfrifol am benodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Anweithredol. Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10(iv)⁴, mae'r Pwyllgor yn argymhell Aelod Anweithredol i'r Senedd ei benodi'n Gadeirydd.

5. Yn unol â Deddf 2013, gellir penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol i Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod o hyd at bedair blynedd, a gallant wasanaethu am hyd at ddau gyfnod.⁵

Yr Aelodau Anweithredol presennol

6. Mae dau Aelod Anweithredol yn agosáu at ddiwedd eu cyfnod cyntaf yn eu swyddi eleni. Daw cyfnod cyntaf Dr Ian Rees i ben ar 16 Hydref 2024. Daw cyfnod cyntaf Elinor Gwynn yn y swydd i ben ar 30 Medi 2024. Fodd bynnag, cynigiodd ei hymddiswyddiad ar 28 Ebrill 2024, yn weithredol o 31 Mai 2024.

Anghymhwyso'r Cadeirydd

7. Cododd trydedd swydd wag ar gyfer Aelod Anweithredol yn dilyn ymadawiad Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Penodwyd Dr Chamberlain gan y Senedd ar 11 Ionawr 2023 fel Aelod Anweithredol a Chadeirydd am gyfnod o bedair blynedd, o 16 Mawrth 2023.⁶

8. Fodd bynnag, yn ystod mis Mawrth 2024 daeth i'r amlwg bod Dr Chamberlain wedi dechrau gwasanaethu fel cyfarwyddwr anweithredol annibynnol yn swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 1 Ionawr 2024.

9. Yn dilyn ymchwiliad pellach, penderfynwyd fod hwn yn benodiad gan, neu ar ran, y Goron, sy'n swydd sy'n anghymwysu o dan baragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013.

³Rheolau Sefydlog y Senedd, tudalen 78

⁴Rheolau Sefydlog y Senedd, tudalen 77

⁵Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 6

⁶Pwyllgor Cyllid, Penodi Aelodau Anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2023

10. O ganlyniad, roedd Dr Chamberlain wedi'i hanghymhwyso rhag bod yn Gadeirydd nac yn aelod anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn weithredol o 1 Ionawr 2024, a chafodd wybod hyn gan Gadeirydd y Pwyllgor ar 15 Ebrill 2024.

11. Er mwyn lleihau'r risg i'r un sefyllfa godi eto, ysgrifennodd y Pwyllgor at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Aelodau Anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 13 Mai 2024, i:

- atgoffa'r Aelodau Anweithredol o ofynion Deddf 2013 a'r telerau a'r amodau penodi sy'n cyfyngu ar y rolau y gellir ymgymryd â nhw wrth wasanaethu ar Fwrdd SAC;
- gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru ddiweddarau'r sesiynau cynefino a hyfforddiant a gaiff yr Aelodau Anweithredol i bwysleisio'r gofynion ynghylch ymgymryd â rolau ychwanegol; a
- gofyn i unrhyw newidiadau a wneir i gofrestrau buddiannau Aelodau Anweithredol gael eu rhannu â Chlerc y Pwyllgor Cyllid.

12. Bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i gynnig arweiniad clir ar gymhwystra i ddarpar ymgeiswyr fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol, a hefyd yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy cyn penodi neb. At hyn, gall Aelodau Anweithredol ofyn am gyngor y Pwyllgor cyn ymgymryd â rolau eraill.

13. Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau ar gyfer llenwi swydd y Cadeirydd wedi i Dr Chamberlain gael ei hanghymhwyso a chytunodd i benodi Aelod Anweithredol newydd fel rhan o'r broses recriwtio bresennol, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd Swyddfa Archwilio Cymru gyda chyn lleied o oedi â phosibl. Mea rhagor o fanylion ynghylch penodi Cadeirydd newydd i'w gweld ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn.

Y broses recriwtio

14. Cyhoeddwyd hysbyseb am Aelodau Anweithredol ar 22 Ionawr 2024, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 1 Mawrth 2024.

15. Hysbysebwyd y rôl drwy ddefnyddio cyhoeddiadau electronig, y cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol. Rhoddwyd yr hysbyseb mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys: gwefan y Senedd; gwefan Archwilio

Cymru; LinkedIn; Swyddi Cymru; Times online; Sunday Times; Guardian online; Golwg 360; gwefan Cyllid Cyhoeddus; Women on Boards; a Fish4Jobs.

16. Dyma aelodau'r panel:

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol, Archwilio Cymru
- Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau, Senedd Cymru

17. Cafwyd ceisiadau gan chwech o fenywod ac 19 o ddynion. Cafodd wyth o ymgeiswyr eu cyfweld wedi hynny, gan gynnwys Dr Ian Rees yn dilyn ei gais am ail gyfnod yn y swydd.

Ymgynghori ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi

18. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ymgynghori â "pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus" cyn pennu trefniadau cydnabyddiaeth a thelerau penodi eraill ar gyfer yr Aelodau Anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd).⁷ Gan hynny, ymgynghorodd y Pwyllgor â Chyfarwyddwr Pobl a Lleoedd Llywodraeth Cymru, a chafwyd ymateb ar 19 Ionawr 2024.⁸ Awgrymwyd y dylid diwygio'r telerau penodi er mwyn egluro'r rhesymau dros derfynu penodiadau a'r cyfnod o rybudd perthnasol. Fodd bynnag, penderfynodd y Pwyllgor barhau â'r darpariaethau presennol o ran telerau derfynu penodiad a'r cyfnod o rybudd yn achos Aelodau Anweithredol, a hynny er mwyn osgoi gwyro oddi wrth y darpariaethau statudol sy'n llywodraethu derfynu penodiadau i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ym mharagraffau 10 - 12 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013.

19. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach â Chyfarwyddwr Pobl a Lleoedd Llywodraeth Cymru a'r Prif Weinidog ynghylch penodiad arfaethedig Dr Ian Rees yn Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (a thrafodwyd ei gydnabyddiaeth ariannol a'r telerau penodi). Mae rhagor o fanylion am benodiad arfaethedig Dr Ian Rees yn Gadeirydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 3. Ymatebodd y

⁷ Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 9(1).

⁸ Llythyr gan y Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd, Llywodraeth Cymru: Ymgynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi Aelodau Anweithredol, 19 Ionawr 2024.

Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd ar 20 Mai 2024⁹ ac ymatebodd y Prif Weinidog ar 21 Mai 2024¹⁰, heb godi gwrthwynebiadau. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd wybodaeth yn nodi bod cyflog arfaethedig y Cadeirydd (£25,000 y flwyddyn) ychydig yn uwch na'r ystod o gyflogau a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar benodiadau cyhoeddus o fewn ei chylch gorchwyl, sef pwynt a nodwyd hefyd gan y Prif Weinidog. Wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cytunodd y Pwyllgor i bennu mai £25,000 y flwyddyn fydd cyflog y Cadeirydd er mwyn sicrhau cysondeb â phenodiadau Cadeirydd blaenorol ac yn gydnabyddiaeth o'r cyfyngiadau a osodir arno ynghylch dal swyddi ychwanegol wrth wasanaethu ar y Bwrdd.

Penodi Aelodau Anweithredol

20. Yn dilyn y broses recriwtio, dewiswyd tri ymgeisydd i lenwi swyddi'r Aelodau Anweithredol, sef:

- Dr Ian Rees (penodwyd am ail gyfnod);
- Richard Thurston (penodwyd am ei gyfnod cyntaf); a
- Mike Norman (penodwyd am ei gyfnod cyntaf).

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor wedi penodi Dr Ian Rees yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 17 Hydref 2020 ac 11 Mehefin 2028.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor wedi penodi Richard Thurston yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 1 Mehefin 2024 a 31 Mai 2028.

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor wedi penodi Mike Norman yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, rhwng 1 Mehefin 2024 a 31 Mai 2028.

⁹ Llythyr gan y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, Lywodraeth Cymru: Ymgynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi'r Cadeirydd, 20 Mai 2024

¹⁰ Llythyr gan y Prif Weinidog: Ymgynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a thelerau penodi'r Cadeirydd, 21 Mai 2024

3. Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

21. Fel y soniwyd ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn, daeth swydd Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn wag wedi i Dr Kathryn Chamberlain gael ei anghymhwysu fel aelod a Chadeirydd y Bwrdd ar 1 Ionawr 2024.

22. Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd benodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Anweithredol.¹¹ Rhaid i'r Pwyllgor, felly, argymhell Aelod Anweithredol i'r Senedd ei gymeradwyo.¹²

23. Oherwydd natur annisgwyl ymadawiad Dr Chamberlain ac er mwyn adfer aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gwahoddodd y Pwyllgor yr Aelodau Anweithredol presennol i ddatgan diddordeb yn swydd y Cadeirydd. Daeth un cais i law, a hwnnw gan Dr Ian Rees.

24. Yn dilyn y broses recriwtio, mae'r Pwyllgor yn argymhell penodi Dr Ian Rees yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (mae hanes gyrfa Dr Ian Rees wedi'i atodi i'r adroddiad hwn), am gyfnod o bedair blynedd, sef y cyfnod hwyaf a ganiateir. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai cyfnod swydd Dr Ian Rees ddechrau ar y diwrnod y bydd y Senedd yn ei benodi (disgwylir i hyn ddigwydd ar 12 Mehefin 2024).

25. Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylai ail gyfnod Dr Ian Rees fel Aelod Anweithredol ddod i ben ar yr un diwrnod â'i ddiwrnod olaf fel Cadeirydd, os caiff ei benodiad i swydd y Cadeirydd ei gadarnhau gan y Senedd. Bydd ail gyfnod Dr Ian Rees fel Aelod Anweithredol yn dechrau ar 17 Hydref 2024. Fodd bynnag, er mwyn i'w aelodaeth a'i gadeiryddiaeth ddod i ben ar yr un pryd, bydd y ddwy swydd yn dod i ben ar 11 Mehefin 2028, cyhyd ag y bo'r Senedd yn cytuno i benodi Dr Ian Rees yn Gadeirydd ar 12 Mehefin 2024.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn penodi Dr Ian Rees yn Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, o 12 Mehefin 2024 tan 11 Mehefin 2028.

¹¹ [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013, Atodlen 1, paragraff 5](#)

¹² [Rheol Sefydlog 18.10\(iv\)](#)

Atodiad: Hanes Gyrfa – Dr Ian Rees

Profiad Anweithredol ac fel Ymddiriedolwr

2021 - heddiw	Ymddiriedolwr a Chadeirydd Bwrdd Elusen ALOUD
2020 - heddiw	Aelod Anweithredol o Fwrdd Archwilio Cymru (Apwyntiad Pwyllgor Cyllid y Senedd); Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Archwilio Cymru
2019 – heddiw	Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru; Cadeirydd Pwyllgor Diswyddo Prifysgol Bangor; Aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg Prifysgol Cymru; Aelod o Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethant Brifysgol Bangor
2018 – 2020	Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg
2015 – 2020	Aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg
2012 – 2013	Aelod Grŵp Tasg “Y Celfyddydau mewn Addysg” – gwahoddiad gan Weinidog Llywodraeth Cymru
2012 – 2015	Cadeirydd Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg – apwyntiad Gweinidog Llywodraeth Cymru
2011 – 2012	Aelod Bwrdd Annibynnol y Coleg Gymraeg Cenedlaethol
2010 - 2012	Is-gadeirydd y Cyngor Celfyddydau Cymru; Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor
2006 – 2012	Aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru - apwyntiad Gweinidog Llywodraeth Cymru; Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Cymru'r Cyngor
2013 – 2014	Aelod o Fwrdd Agored Cymru
2008 – 2010	Aelod o Fwrdd Colegau Cymru
2000 – 2006	Cyfarwyddwr Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn
2000 – 2006	Aelod o Fwrdd fforwm

Cymwysterau:

2018	Tystysgrif Lefel 7 mewn Ymgynghori Proffesiynol	CMI
1995	Arolygwr Tîm ar gyfer arolygon ysgolion o dan Ddeddf Addysg 1992	Estyn
1988	Dip. Add (Rhan amser)	CPGC Bangor

Prif gyfrifoldebau

Arwain pob agwedd ar waith y Grŵp gyda chyflogwyr, gan gynnwys:

- Cytundeb Hyfforddiant yn y Gweithle - £9m; Arwain Consortiwm Darparwyr Hyfforddiant yn y Gweithle GLLM; Darpariaeth hyfforddiant penodol i gyflogwyr; Cyrsiau a chymwysterau proffesiynol - gan gynnwys y ddarpariaeth yn y Ganolfan Rheolaeth, Bangor; 2 prosiect ESF sylweddol – SEE (Sgiliau i Gyflogwyr a Gweithwyr) a NWBA (Academic Fusnes Gogledd Cymru); Arwain ymateb GLLM i anghenion Horizon Nuclear Power wrth iddynt ddatblygu Wylfa Newydd; Datblygu CIST – Canolfan Sgiliau a Hyfforddiant Isadeiledd yn Llangefni; Y Ganolfan Dechnoleg Fwyd yn Llangefni; Datblygu prosiectau ym maes Ymwneud â Chyflogwyr a Datblygu Economaidd; Gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ym maes Ymwneud â Chyflogwyr a Datblygiadau Niwclear

Awst 2014 – Awst 2017

Pennaeth, Coleg Menai ac Uwch Gyfarwyddwr - Materion allanol (o fewn Grŵp Llandrillo Menai)

Prif gyfrifoldebau

- Uwch Gyfarwyddwr Materion Allanol - Arwain ar waith y Grŵp cyfan ym meysydd Marchnata a Chyfathrebu, Ariannu Allanol (gan gynnwys arian Ewropeaidd), a Gweithgareddau Rhyngwladol. Hyn o fewn Grŵp o dri choleg gyda throsiant blynyddol o ~£75m. Cyngori Bwrdd y Gorfforaeth a phwyllgorau ar faterion amrywiol.
- Pennaeth Coleg Menai - Arwain tîm o staff o dros 200 ymhob agwedd o waith a pherfformiad y coleg - un o'r tri choleg o fewn y Grŵp. Atebol am gyllideb o ~£12m. Roedd y gwaith yma hefyd yn cynnwys arwain gwaith y Grŵp ym maes datblygu sgiliau ac addysg y gweithlu ar gyfer Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Roedd hwn yn waith arloesol yng Nghymru ac yn cynnwys trafodaethau gyda chwmnïau a chorfforaethau preifat rhyngwladol.

2012 – 2014

Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor ac Uwch Gyfarwyddwr Adfywio a Materion Allanol (o fewn Grŵp Llandrillo Menai)

2010 – 2012

Dirprwy Bennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Llandrillo Cymru

1997 – 2010

Pennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Meirion-Dwyfor

1992 – 1997	Pennaeth: Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog
1989 – 1992	Dirprwy Bennaeth: Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda
1985 – 1989	Pennaeth Ffiseg: Ysgol Eifionydd, Porthmadog
1983 – 1985	Athro Ffiseg: Ysgol Gyfun Ystalyfera, Gorllewin Morgannwg

Swyddi gwirfoddol:

2024 - heddiw	Cadeirydd Côr Cynhaearn
2023 - heddiw	Is-Gadeirydd Côr Meibion y Brythoniaid
2023 - heddiw	Trysorydd Clwb Gwerin y Castell
2018 – 2020	Aelod o Gyngor Tref Cricieth
2004 – 2010 (a 1997 – 2001)	Cyfarwyddwr Gyrfa Cymru (y Gogledd Orllewin)
2004 – 2008	Cadeirydd “Y Gamfa” – CCET Gwynedd a Môn
2001 – 2005	Aelod o Bwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru ELWa
2000 – 2008	Aelod o’r “Gamfa” – CCET Gwynedd a Môn